# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru
# Mawrth 2024

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ein hymgynghoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein calendr i ddod.

## Llesiant Cymru

Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol Llesiant Cymru ar 28 Medi 2023. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar b'un a ydym yn gwneud cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth eang o bynciau, yn cwmpasu'r 50 o ddangosyddion cenedlaethol, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ddata perthnasol eraill.

Eleni, gwnaethom baratoi adroddiad ar wahân ar ethnigrwydd a llesiant yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar y dangosyddion cenedlaethol wedi'u dadansoddi yn ôl ethnigrwydd lle y bo modd. Mae hwn yn rhoi mwy o fanylder a dyfnder nag sy'n bosibl yn y prif adroddiad ar Lesiant Cymru ac mae'n helpu i olrhain cynnydd tuag at ddod yn Gymru sy'n fwy cyfartal.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.ProsiectauBlaenoriaethUchel@llyw.cymru

## Yr economi a'r farchnad lafur

### Yr Economi

Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gyhoeddi datganiad dadansoddiad o faint busnesau, a oedd yn cwmpasu data ar gyfer 2023. Mae'r datganiad blynyddol hwn yn darparu data ar strwythur y mentrau sy'n weithredol yng Nghymru, gan gynnwys amcangyfrifon ar gyfer y busnesau lleiaf un sy'n gweithredu islaw trothwy Treth ar Werth (TAW).

Diweddarwyd data demograffeg busnes 2022 ym mis Ionawr er mwyn cynnwys dadansoddiadau diwydiant ar wefan StatsCymru.

Ym mis Chwefror, gwnaethom gyhoeddi ein datganiad dangosyddion allbynnau tymor-byr o fis Gorffennaf i fis Medi 2023. Rydym hefyd wedi parhau i ddiweddaru Economi Cymru mewn rhifau: dangosfwrdd rhyngweithiol.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.economi@llyw.cymru

### Y Farchnad lafur

Oherwydd yr ansicrwydd cynyddol ynghylch amcangyfrifon yr Arolwg o'r Llafurlu, ym mis Ionawr parhaodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i gyhoeddi ei chyfres amgen o amcangyfrifon o gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd fel ystadegau arbrofol i wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon gwnaethom gyhoeddi prif bennawd ystadegol yn rhoi crynodeb o'r prif ystadegau diweddaraf ynglyn â'r farchnad lafur yng Nghymru.

Ym mis Ionawr, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar ystadegau'r farchnad lafur ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref 2022 a Medi 2023 sy'n cynnwys data ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU yn ogystal ag ardaloedd lleol.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol amcangyfrifon wedi'u hailbwysoli'r Arolwg o'r Llafurlu ar gyfer Cymru ar ôl gohirio cyhoeddi'r amcangyfrifon sy'n seiliedig ar yr Arolwg o'r Llafurlu ym mis Medi 2023. Roedd dychwelyd at yr amcangyfrifon sy'n seiliedig ar yr Arolwg o'r Llafurlu wedi'n galluogi i adfer cyhoeddi ein datganiad misol, trosolwg o'r farchnad lafur, sy'n dod ag amrywiaeth o wahanol ffynonellau mewn perthynas â'r farchnad lafur ynghyd er mwyn rhoi'r darlun diweddaraf o'r effaith y mae digwyddiadau gwahanol yn ei chael ar y farchnad lafur. Ochr yn ochr â hyn, gwnaethom hefyd gyhoeddi'r erthygl gyda'r teitl, 'Impact of reweighting on Labour Force Survey key indicators in Wales' sy'n ystyried effaith lawn yr ymarfer ailbwysoli hwn yn ogystal â diweddariad y Prif Ystadegydd ar y gwelliannau a gyflwynwyd i amcangyfrifon y farchnad lafur ar gyfer Cymru.

Mae allbynnau eraill yn cynnwys y diweddariad blynyddol ar gyfer tablau StatsCymru sy'n dangos nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau a lwfans ceisio gwaith a gyhoeddwyd ar 1 Chwefror 2024 a'r diweddariad chwarterol ar bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) sy'n ymdrin â data ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Medi 2023, a gyhoeddwyd ar 8 Chwefror 2024.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.yfarchnadlafur@llyw.cymru

## Addysg

### Ysgolion

Ym mis Ionawr, gwnaethom ddiweddaru Fy Ysgol Leol â chanlyniadau terfynol CA4 ar gyfer haf 2023, sef y tro cyntaf i ganlyniadau lefel ysgol gael eu cyhoeddi ers cyn pandemig COVID-19 (y Coronafeirws). Bellach, mae Fy Ysgol Leol hefyd yn cynnwys data o Gyfrifiad Ysgolion Ionawr 2023 a'r ymarfer casglu data blynyddol ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd.

Gwnaethom barhau i gyhoeddi data bob pythefnos ar bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir drwy gydol tymor y gwanwyn.

Yn ystod Hydref 2023, gwnaethom ailddechrau'r ymafer casglu data blynyddol ar absenoldeb o ysgolion cynradd a chyhoeddi data ar gyfer Absenoldeb o ysgolion cynradd:

Medi 2022 i Awst 2023 ar 7 Chwefror. Roedd hyn yn cynnwys y data cyhoeddedig cyntaf ar absenoldeb parhaus yn seiliedig ar absenoldeb ar gyfer 10% neu fwy o sesiynau, sef newid yn y diffiniad o 20% o sesiynau fel yr amlinellir mewn canllawiau newydd ar wella presenoldeb mewn ysgolion. Cyhoeddir data cyfatebol ar gyfer ysgolion uwchradd ar 5 Mawrth.

Cafodd data ar y Cyfrifiad Ysgolion, addysg heblaw yn yr ysgol a'r cyfrifiad ysgolion annibynnol oll eu casglu ym mis Ionawr a disgwylir i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi o fis Mai ymlaen.

Cyhoeddwyd Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc: Medi 2022 i Awst 2023 ym mis Mawrth 2023.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech roi adborth, gallwch gysylltu â ni yn ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

## Addysg Ôl-16

Cyhoeddwyd y diweddariad chwarterol diweddaraf o ystadegau Twf Swyddi Cymru+ ar gyfer chwarter 2 blwyddyn ariannol 2023-24, ym mis Rhagfyr. Rydym hefyd wedi cyhoeddi data chwarterol ar nifer y rhaglenni prentisiaeth a ddechreuwyd drwy ein dangosfwrdd rhyngweithiol. Mae a wnelo'r ffigurau diweddaraf â chwarter 4 blwyddyn academaidd 2022/23 ac mae hyn hefyd yn golygu bod data blwyddyn lawn ar gyfer 2022/23 bellach yn derfynol. Mae'r dangosfwrdd ei hun hefyd wedi'i ailwampio drwy wella ei golwg a'i naws a'i gwneud yn haws i'w ddefnyddio.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi erthygl ystadegol untro yn ddiweddar, sy'n defnyddio dulliau arbrofol i ystyried y gydberthynas rhwng deilliannau prentisiaethau yn ôl enillion.

Cyhoeddwyd data blynyddol ar gyfer 2022/23 ar Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol ar ddiwedd mis Chwefror a disgwylir i Fesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion a Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad) ar gyfer 2022/23 gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth.

Er mwyn rhoi adborth neu gael unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

## Addysg uwch a chyllid myfyrwyr

Rydym wedi cyhoeddi ein datganiadau blynyddol diweddaraf ar Staff mewn sefydliadau addysg uwch, Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (LCA) a ddyfarnwyd yng Nghymru a Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru (addysg bellach).

Noder: ni chaiff ystadegau myfyrwyr a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gyfer 2024 eu cyhoeddi yn ôl yr amserlen arferol ym mis Ionawr na mis Chwefror. Y rheswm dros hyn yw bod yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn wynebu oedi o ran casglu Cofnod Myfyrwyr 2022/23 gan rai darparwyr. Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg

Uwch yn disgwyl cyhoeddi'r datganiad data terfynol rywbryd ym mis Mehefin a bydd ein datganiadau yn dilyn yn unol â hynny.

Er mwyn rhoi adborth neu ar gyfer unrhyw wybodaeth bellach, anfonwch neges e-bost i addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru.

## Tai

### Digartrefedd

Mae gwybodaeth reoli fisol ar ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan yn parhau i gael ei chyhoeddi'n rheolaidd, gydag oedi o ryw ddeufis. Ar ôl cael adborth defnyddwyr, ar gyfer data mis Hydref ymlaen rydym wedi cyhoeddi data ar nifer yr unigolion digartref mewn llety dros dro ar ddiwedd y mis, yn ôl awdurdod lleol a hefyd yn ôl math o lety. At hynny, mae data o fis Ebrill 2023 ymlaen wedi symud o'r fformat taenlen blaenorol i StatsCymru o dan adran Digartrefedd. Mae taenlen sy'n cynnwys data a gyhoeddwyd cyn mis Ebrill 2023 ar gael i'w lawrlwytho o StatsCymru. Ar gyfer data o fis Ionawr 2024 ymlaen (a gyhoeddir ym mis Mawrth 2024), rydym yn bwriadu datblygu'r cyhoeddiad hwn ymhellach a chyhoeddi rhagor o ddata ar lefel awdurdod lleol.

### Rhenti yn y Sector Preifat a Phrisiau Tai

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi data ar renti yn y sector preifat ar gyfer 2022-23.

Ar 1 Rhagfyr, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol erthygl yn edrych ar yr effaith y mae ei methodoleg well wedi'i chael ar ystadegau ar brisiau rhentu preifat. O fis Mawrth 2024 ymlaen, bydd y mynegai hwn yn disodli'r Mynegai Prisiau Rhentu Tai Preifat (IPHRP) a'r ystadegau Cryno ar y Farchnad Rhentu Preifat yn Lloegr (PRMS).

Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried data rhenti yn y sector preifat sydd ar gael i'r cyhoedd ac a ydynt yn diwallu anghenion defnyddwyr. Hoffem glywed gennych am ba ddata renti yn y sector preifat rydych yn eu defnyddio ac at ba ddibenion.

Mae'r Gofrestrfa Tir a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i gyhoeddi data misol Mynegai Prisiau Tai y DU (Cofrestrfa Tir Ei Fawrhydi) ar gyfer Cymru a gweddill y DU.

Cysylltwch â ni drwy flwch post ystadegau.tai@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

### Adeiladu Tai Newydd

Y chwarter hwn, gwnaethom gyhoeddi ein diweddariad chwarterol arferol i Adeiladu tai newydd: Gorffennaf i Fedi 2023.

Cysylltwch â ni drwy flwch post ystadegau.tai@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

## Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

### Ystadegau ysbytai

Yn y chwarter hwn, gwnaethom ddiweddaru ein diweddariad misol arferol i'n Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG ac yn y chwarter hwn rydym hefyd wedi cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar Tueddiadau yng ngweithgarwch gofal a gynlluniwyd y GIG: ym mis Mawrth 2023 a Thueddiadau yng ngweithgarwch gofal brys a gofal mewn argyfwng y GIG: ym mis Mawrth 2023 sy'n canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth well o dueddiadau tymor hwy o ran gwasanaethau ambiwlans, adrannau achosion brys, rhestrau aros, diagnosteg a therapïau a gwasanaethau canser.

### Gweithlu a gwariant y GIG

Y chwarter hwn cafwyd diweddariadau i'n cyfres o ystadegau ar weithlu'r GIG, gan gynnwys: Gweithlu practis cyffredinol, Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG, Absenoldeb oherwydd salwch y GIG ac Ystadegau swyddi gwag y GIG: 30 Medi 2023 .

### Gofal sylfaenol a chymunedol

Yn y chwarter hwn, gwnaethom ddiweddaru adroddiadau blynyddol ar Wasanaethau fferyllol cymunedol a Dechrau'n Deg.

Yn ogystal â diweddariadau chwarterol i Wasanaethau deintyddol y GIG, Rhaglen Plant Iach Cymru a Data bwydo ar y fron.

### Iechyd y boblogaeth

Yn y chwarter hwn, gwnaethom gyhoeddi Canlyniadau pobl anabl mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd (Cyfrifiad 2021) yn edrych ar ddata ar anabledd yn ôl amrywiaeth o ganlyniadau economaidd-gymdeithasol ar gyfer unigolion ac aelwydydd a oedd yn breswylwyr arferol yng Nghymru ar adeg y cyfrifiad.

Ynghyd â Cheisiadau ystadegol ad-hoc ar weithgarwch corfforol, bwyta ffrwythau a llysiau, a mynegai màs y corff ar gyfer oedolion, yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Uwch a diweddariad i Lesiant meddyliol o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Yn y chwarter hwn hefyd cafwyd diweddariadau rheolaidd i amrywiaeth o ystadegau iechyd meddwl, gan gynnwys: Nifer y bobl a gadwyd o dan Adran 135 a 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, atgyfeiriadau ac amseroedd aros ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl ac amseroedd aros am apwyntiad cyntaf gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol.

Yn ogystal, cafwyd amrywiaeth o ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, mesurau gofal llygaid a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu. Mae nifer o allbynnau eraill ar gael gan

sefydliadau partner, gan gynnwys diweddariadau ar ddata derbyniadau i'r ysbyty ar-lein (gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru)  a Marwolaethau canser (gan Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar gael ar y wefan Ystadegau ac ymchwil ac mae data sylfaenol manylach ar gael yn ardal iechyd a gofal cymdeithasol StatsCymru.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

Rydym yn parhau i gyhoeddi dadansoddiadau pwnc-benodol o Arolwg Cenedlaethol 2022-23.

### Llesiant Meddyliol

Ym mis Chwefror, gwnaethom gyhoeddi Bwletin Llesiant Meddyliol. Mae'r bwletin yn archwilio lefelau llesiant meddyliol ymhlith y boblogaeth, a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â gwahanol sgoriau ar gyfer llesiant meddyliol.

### Amddifadedd Materol

Gwnaethom hefyd gyhoeddi bwletin Amddifadedd Materol ym mis Chwefror. Mae'r bwletin hwn yn nodi nifer y bobl sy'n byw mewn amddifadedd materol ymhlith y boblogaeth, yn ogystal â'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n byw mewn amddifadedd materol. Mae'r bwletin yn ymdrin ag amddifadedd materol ar gyfer pedwar math o bobl, sef:

- Oedolion
- Oedolion o oedran gweithio
- Pensiynwyr
- Plant

### Ymddygiadau Amgylcheddol, Trwsio ac Ailddefnyddio

Ym mis Mawrth, rydym yn disgwyl cyhoeddi bwletin Ymddygiadau Amgylcheddol, Trwsio ac Ailddefnyddio. Bydd y bwletin hwn yn ystyried pa ffactorau a oedd yn gysylltiedig ag ymddygiadau ecogyfeillgar pobl yn ogystal â'u harferion trwsio ac ailddefnyddio.

Gellir edrych ar y data drwy ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau

Cysylltwch â ni yn arolygon@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

## Cyfiawnder cymdeithasol

### Tlodi

Rydym yn disgwyl cyhoeddi diweddariadau i grynodebau o ddata blynyddol ar gyfer Cymru ar dlodi incwm cymharol, amddifadedd materol a thlodi parhaus yng ngwanwyn 2024 (ar

ddiwedd mis Mawrth yn ôl pob tebyg), pan fydd y data diweddaraf yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar ddiwedd 2023.

Ddydd Iau 18 Ionawr 2024 cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau Ystadegau Swyddogol newydd sy'n cael eu Datblygu yn yr adroddiad, "Below Average Resources: Developing a new poverty measure". Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cwestiynau ymgynghori am y dull gweithredu sy'n mapio i holiadur ymgynghori sy'n ceisio adborth erbyn 11 Ebrill 2024.

### Costau byw

Ym mis Rhagfyr 2023, gwnaethom gyhoeddi'r olaf mewn cyfres o ddiweddariadau misol i dablau StatsCymru ar y Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r gyfres flaenorol bellach wedi'i disodli gan gyfres chwarterol newydd o ystadegau ar y Gronfa Cymorth Dewisol, gyda dadansoddiadau manylach, y cyhoeddwyd y cyntaf ohonynt ar 25 Ionawr 2024. Byddwn yn parhau i gyhoeddi diweddariadau i'r dangosfwrdd rhyngweithiol yn cyflwyno amcangyfrifon tlodi tanwydd a data cysylltiedig ar gyfer Cymru. Cyfeirir at y rhain a ffynonellau eraill o ddata ar yr argyfwng costau byw mewn blog a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr 2022. Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol i sicrhau bod data ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol ar gael lle bo hynny'n bosibl.

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Rydym wedi cyhoeddi ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r MALIC nesaf ar ddiwedd 2025 neu ar ddechrau 2026, a byddwn yn cadarnhau hyn pan fo'n bosibl. Darllenwch ein blog am ragor o gefndir ar amseru ar y mynegai nesaf, a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar a'r newid mewn ffiniau ardal fach.

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru i danysgrifio.

### Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin

Rydym yn parhau i weithio gyda'r SYG, y Swyddfa Gartref, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r llywodraethau datganoledig eraill i gynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â'r argyfwng yn Wcráin.

Mae'r ystadegau wythnosol ar nifer y ceisiadau am fisâu, nifer y fisâu a roddir a nifer y bobl sy'n cyrraedd y DU sydd â noddwyr yng Nghymru (yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau) yn parhau i gael eu diweddaru.

### Diogelwch cymunedol, troseddu a chyfiawnder

Ym mis Rhagfyr 2023, gwnaethom gyhoeddi Perfformiad awdurodau tân ac achub: Ebrill 2022 i Fawrth 2023, sef adroddiad blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am danau a fynychwyd, anafiadau o ganlyniad i danau, galwadau ffug, Digwyddiadau Gwasanaethau Arbennig a thanau mewn anheddau o fewn rheolaeth.

Os ydych yn defnyddio'r ystadegau tân a hoffech gyfrannu unrhyw adborth, cysylltwch ag ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

Gellir gweld ein dangosfwrdd rhyngweithiol ar Gyfiawnder Ieuenctid yma. Rydym yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref er mwyn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod data pellach ar droseddu a chyfiawnder yng Nghymru ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr.

Cyhoeddwyd yr Ystadegau troseddu diweddaraf ar gyfer Cymru a Lloegr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ym mis Ionawr. Mae dangosfwrdd data Cyflawni'r System Cyfiawnder Troseddol, sy'n gymharol newydd, bellach ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n dwyn ynghyd ddata cyfiawnder troseddol a data ar gyfer ardaloedd Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw adborth am y dangosfyrddau hyn neu awgrymiadau am ddangosfyrddau i'r dyfodol, cysylltwch â ni ar ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

## Cydraddoldeb

Mae data o Gyfrifiad 2021 wrthi'n cael eu dadansoddi ymhellach a'u cyhoeddi.

Cyhoeddwyd y bwletin ystadegol ar Ganlyniadau pobl anabl mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd (Cyfrifiad 2021) ar 6 Rhagfyr 2023. Cyhoeddir bwletin ystadegol ar wahaniaethau cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn iechyd, addysg a statws economaidd (Cyfrifiad 2021) ar 6 Mawrth 2024.

Bwriedir cyhoeddi allbynnau pellach sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth ac anghydraddoldeb pobl anabl o safbwynt croestoriadol ar ddiwedd 2024.

Anfonwch e-bost at YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw adborth.

Yn ddiweddar, gwnaethom rai newidiadau i adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gwefan StatsCymru er mwyn gwella mynediad at y data mwyaf diweddar. Mae'r adrannau ar gyfer pob nodwedd bellach yn cynnwys is-adrannau ar gyfer eu priod ffynonellau (sef yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn bennaf ar hyn o bryd). Gwnaethpwyd hyn er mwyn paratoi ar gyfer ychwanegu data Cyfrifiad 2021 at StatsCymru, rydym yn bwriadu eu hychwanegu ar ffurf Taenlen OpenDocument yn y misoedd sydd i ddod. Mae tablau data o ffynonellau hŷn ar gael ar y dudalen Archif. Rydym yn croesawu unrhyw adborth am y ffordd rydych yn defnyddio adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gwefan StatsWales, neu'r hyn yr hoffech ei gael o ddata Cyfrifiad 2021, yn ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

# Masnach

## Arolwg Masnach Cymru

Daeth gwaith maes ar gyfer pumed Arolwg Masnach blynyddol Cymru, a gasglodd ddata ar gyfer 2022, i ben ar ddechrau mis Ionawr gyda chyfradd ymateb o 15%. Mae ymarfer glanhau a dilysu data yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Caiff proses briodoli ar draws blynyddoedd ei chynnal am y tro cyntaf ar gyfer data pryniannau yn ôl hyd at 2019, gyda data gwerthiannau yn cael eu priodoli yn ôl hyd at 2021 yn unig er mwyn ei gwneud yn bosibl i 2022 gael ei chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y gobaith yw y bydd y dadansoddiad yn barod i'w gyhoeddi ar ddiwedd haf 2024.

Ni chaiff data eu casglu yn 2024 oherwydd pwysau cyllidebol, ond bydd hyn heyd yn galluogi'r tîm dadansoddi i gynnal dadansoddiad manylach o ddata a gasglwyd yn flaenorol ac ailystyried yr achos busnes dros barhau â'r Arolwg Masnach yn y dyfodol.

## Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru

Cyhoeddwyd prif ganlyniadau Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEF ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2023 ar 14 Rhagfyr 2023. Bydd yr holl ddata ar gyfer 2023 ar gael o 14 Mawrth 2024.

Ochr yn ochr â'r prif ganlyniad uchod, caiff y dangosfwrdd masnach rhyngweithiol ei ddiweddaru yn unol â data'r chwarter diwethaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddaru'r dangosfwrdd, gan ymgorffori symiau o ddata a chyflwyno gwelliannau hygyrchedd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: ystadegau.masnach@llyw.cymru

# Trafnidiaeth

Ym mis Tachwedd 2023, gwnaethom gyhoeddi Cludo nwyddau ar y ffyrdd ar gyfer 2022 yn ogystal â Chludiant Môr o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023.

Ym mis Chwefror 2024, gwnaethom gyhoeddi data dros dro ar wrthdrawiadau ffyrdd rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Medi 2023 a diweddaru ein dangosfwrdd rhyngweithiol, gan gynnwys dadansoddiadau megis difrifoldeb anafiadau, math o ddefnyddiwr ffordd a lleoliad gwrthdrawiadau ar fap.

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddwyd Defnydd gorsafoedd rheilffordd: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 a edrychodd ar faint o ddefnydd a wnaed o reilffyrdd cyhoeddus yng Nghymru.

I roi adborth ac i wneud sylwadau, cysylltwch ag ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru

### Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

#### Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

Bydd yr arolwg yn casglu data ar agweddau ac ymddygiad teithio gan bobl sy'n byw yng Nghymru. Bydd yn cynnwys holiadur arolwg a dyddiadur teithio. Bydd yr Arolwg Teithio Cenedlaethol yn cynrychioli pobl Cymru ac yn hygyrch iddynt ac yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd y data a gesglir yn ein galluogi i olrhain y cynnydd tuag at dargedau a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Cymru Sero Net. Bydd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac yn gwella'r sylfaen tystiolaeth trafnidiaeth yng Nghymru, gan ein galluogi i ddeall anghenion ein defnyddwyr yn well.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) i ddarparu cymorth gyda dylunio a datblygu arolygon. Dechreuodd y gwaith profi yn ystod Hydref 2023 a bwriedir i'r ymarfer casglu data llawn ddechrau tua diwedd 2024.

Bydd tîm prosiect yr Arolwg Teithio Cenedlaethol yn cynnal sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein drwy Microsoft Teams yn ystod mis Mawrth 2024 lle y darperir gwybodaeth am sut y caiff yr arolwg ei ddatblygu, y data a gaiff eu casglu a'u cyhoeddi ac amserlen y prosiect.

Bydd y sesiynau hyn wedi'u hanelu at randdeiliaid sydd â diddordeb yn y ffordd y caiff yr arolwg ei ddatblygu a'r data a gaiff eu casglu ac, yn y pen draw, eu cyhoeddi.

Er mwyn cofrestru i gymryd rhan yn un o'r sesiynau hyn cliciwch yma a chwblhewch y ffurf gofrestru fyr.

Mae croeso ichi rannu'r gwahoddiad hwn ag unrhyw unigolion neu sefydliadau eraill y gallai fod ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y sesiynau, yn eich barn chi.

Os hoffech ddysgu mwy am Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, e-bostiwch arolwgteithio@trc.cymru.

## Y Gymraeg

### Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Cyhoeddwyd y data diweddaraf ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar 31 Ionawr.

Ar hyn o bryd, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn trawsnewid y ffordd y cynhyrchir ystadegau ar y farchnad lafur. Mae arolwg newydd, Yr Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid, a gyhoeddwyd gyntaf ar-lein, wedi bod yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r Arolwg presennol

o’r Llafurlu (sy'n sail i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) ers mis Chwefror 2022. Yn y pen draw, bwriedir i'r arolwg newydd hwn ddisodli'r Arolwg o'r Llafurlu fel y prif fesur arolwg ar gyfer allbynnau'r farchnad lafur a chynhyrchiant. Rydym wedi bod yn cymharu canlyniadau'r ddau arolwg ac yn ystyried a ellid cysylltu data'r Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid neu'r arolwg a'i rhagflaenodd, sef yr Arolwg o'r Farchnad Lafur, â Chyfrifiad 2021. Pan fydd SYG yn gwneud y newid hwn, byddwn yn gwneud yr addasiadau priodol er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gyhoeddi data ar y Gymraeg yn rheolaidd a rhoi cyngor i ddefnyddwyr ar sut i ddehongli'r ystadegau hyn.

### Arolwg Defnydd Iaith 2019 i 2020

Cynhaliwyd Arolwg Defnydd Iaith 2019-2020 fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru i gael gwybod pa mor aml, ble, pryd a gyda phwy y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg, ac i wybod mwy am eu sgiliau yn yr iaith.

Yn y gorffennol, rydym wedi cyhoeddi canfyddiadau cychwynnol ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru a chrynodebau pwnc ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac ym myd addysg, y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg ac agweddau tuag at yr iaith yn y gweithle. Bydd y bwletin ystadegol nesaf, a'r un olaf yn y gyfres, yn archwilio'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r bwletin hwn maes o law.

### Data am y Gymraeg yn ôl awdurdod lleol

Cyhoeddwyd data am y Gymraeg yn ôl awdurdod lleol er mwyn helpu awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar 30 Tachwedd.

E-bostiwch dataiaithgymraeg@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.

## Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

### Datgarboneiddio a'r Newid yn yr Hinsawdd

Ar 6 Chwefror 2024, cyhoeddodd yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ) ystadegau ar Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Terfynol ar gyfer 2022. Mae'r ystadegau hyn ond yn gymwys i'r DU. Bydd data sy'n ymwneud yn benodol â Chymru ar gael ym mis Mehefin 2024.

- Lleihaodd allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaethol y DU rhwng 2021 a 2022, a hynny'n bennaf oherwydd lleihad y defnydd o danwydd i wresogi adeiladau.
- Yn 2022, amcangyfrifwyd bod allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaethol net yn cyfateb i 406.2 miliwn o dunelli o'r hyn sy'n cyfateb i garbon deuocsid ($MtCO_2e$), sef lleihad o 3.5% o gymharu â 2021 a 50.0% yn is nag oeddent yn 1990.
- Mae'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net wedi newid y ffordd y caiff ffynonellau allyriadau yn y DU eu dosbarthu, gan ddileu'r sectorau Cyfathrebu Cenedlaethol a chyflwyno'r sectorau ‘Ystadegau Allyriadau Tiriogaethol’ newydd yn eu lle.

### Amaethyddiaeth

Cyhoeddwyd amcangyfrifon ar gyfer tir amaethyddol a da byw Cymru, Arolwg o'r cyfrifiad amaethyddol a garddwrol: Mehefin 2023, ar 23 Tachwedd 2023.

Cyhoeddwyd y datganiad blynyddol ar incymau fferm, Incymau fferm: Ebrill 2022 i Fawrth 2023, o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio ar 23 Ionawr 2024.

### Gwastraff trefol

Cyhoeddwyd y datganiad blynyddol ar wastraff trefol, Adroddiad rheoli gwastraff trefol awdurdod lleol: Ebrill 2022 i Fawrth 2023, sy'n dangos y cynnydd y wnaed yn erbyn targedau ailgylchu, ar 7 Rhagfyr 2023.

I gael rhagor o wybodaeth neu i gysylltu, anfonwch neges e-bost i ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru neu ystadegau.amaeth@llyw.cymru.

## Ymchwil data gweinyddol

I gael gwybodaeth neu i gysylltu, anfonwch neges e-bost i YDGCymru@llyw.cymru.

## Poblogaeth a demograffeg

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

## Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

### Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bostiwch: desg.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

### Pwnc-benodol

Cysylltiadau ar gyfer ystadegau

### Twitter/X

YstadegauCymru

### Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

Newyddion a hysbysiadau

### Ymholiadau gweinyddol

E-bost kasadmin@llyw.cymru